

# Cymwys ar gyfer y dyfodol



## Cwestiynau ymgynghori

### Sut i ymateb

Cyn i chi ateb y cwestiynau ymgynghori hyn, gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'n dogfen ymgynghori, *Cymwys ar gyfer y dyfodol*. Gallwch ei ddarllen ar ein [gwefan](#).

Rydym yn eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r [arolwg ar-lein](#).

Os oes angen i chi gyflwyno'ch ymatebion gan ddefnyddio'r ddogfen hon, dylid eu hanfon at:

Ymchwil Arad yn [post@arad.cymru](mailto:post@arad.cymru) neu 8 Rhodfa Columbus, Maes Brigantîn, Caerdydd, CF10 4SD.

Rydym wedi cwblhau Asesiad Effaith Integredig<sup>1</sup> ar bob un o'r cynigion yn ein dogfen ymgynghori, y gallwch hefyd ddod o hyd iddo ar ein [gwefan](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad ei hun, cysylltwch â [diwygio@cymwysteraucymru.org](mailto:diwygio@cymwysteraucymru.org). Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am 5yh ddydd Gwener 7 Chwefror 2020. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ymatebion a gyflwynir ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Os nad yw cwestiwn yn berthnasol i chi, neu os ydych yn ansicr ynghylch sut i ymateb, gadewch y cwestiwn hwnnw a symudwch ymlaen i'r un nesaf.

Lle bo modd, peidiwch â chynnwys unrhyw ddata personol a allai adnabod unigolyn yn eich ymatebion i'n cwestiynau.

### Gwybodaeth bwysig

**Bydd Ymchwil Arad yn casglu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a gallant rannu'r ymatebion hynny gyda ni, yn llawn, i gefnogi ein gwaith yn y maes hwn.**

Bydd Ymchwil Arad yn dadansoddi'r holl ymatebion ac yn darparu adroddiad cryno i ni. Lle y bo'n briodol, bydd yr adroddiad hwn yn nodi tueddiadau mewn ymatebion ac yn cysylltu'r rhain â nodweddion ymatebwyr. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad hwn ar ein gwefan, ochr yn ochr â sylwebaeth yn amlinellu ein penderfyniadau.

Cedwir yr holl ddata personol a gesglir yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 y DU a Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Dim ond at ddibenion ein helpu i lunio cynnig cymwysterau'r dyfodol ar gyfer dysgwyr 16 oed yng Nghymru y bydd yn cael ei ddefnyddio, er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd. Mae hysbysiad preifatrwydd wedi'i gyhoeddi ar ein [gwefan](#).

<sup>1</sup> Mae hwn yn cynnwys Asesiad o'r Effaith Reoleiddiol, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

# Amdanoch chi

Er mwyn ein helpu i ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, dywedwch wrthym ym mha rinwedd rydych chi'n ymateb.

## 1. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?\*

(Ticiwch yr opsiwn sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn).

- Dysgwr
- Gweithiwr addysg proffesiynol
- Rhiant/gofalwr
- Aelod o'r cyhoedd
- Awdurdod lleol neu gonsortiw addysg rhanbarthol
- Cyflogwr neu gorff cynrychiadol
- Undeb athrawon
- Corff dyfarnu
- Arall (nodwch) \_\_\_\_\_
- Mae'n well gen i beidio â dweud

## 2. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, nodwch enw'r sefydliad yn y blwch isod.

Ni fydd yr adroddiad cryno a ddarperir gan Ymchwil Arad yn enwi unrhyw unigolion na sefydliadau. Fodd bynnag, gan ein bod yn gorff cyhoeddus, gellir ystyried rhyddhau'r holl ddeunydd ysgrifenedig sydd gennym, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth a anfonwch atom, yn dilyn cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gallai hyn gynnwys cyhoeddi eich enw chi neu enw eich sefydliad ochr yn ochr â'ch ymateb.

Mae'r gyfraith yn caniatáu inni ddal gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os derbyniwn gais am y wybodaeth yr ydych wedi'i darparu yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried unrhyw geisiadau am gyfrinachedd, ond ni allwn warantu y gellir ei gynnal ymhob amgylchiad.

## 3. A ydych yn dymuno i unrhyw ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol?

- Ydw
- Nac ydw

Os gwnaethoch ddewis 'ydw', nodwch yn glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac eglurwch eich rhesymau.

# Egwyddorion arweiniol i helpu i lunio cynnig cymwysterau'r dyfodol

Yn adran 5 o'r ddogfen ymgynghori, rydym yn amlinellu set o egwyddorion arweiniol yr ydym yn cynnig eu defnyddio wrth benderfynu pa gymwysterau a gymerir yn 16 oed sy'n gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus.

4. Dylai Cymwysterau Cymru gymryd camau i sicrhau bod cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, gysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru, a'i gefnogi.

I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

(Yn eich ymateb efallai yr hoffech ystyried: a) Y buddion a'r heriau i chi neu'ch sefydliad a b) Unrhyw amgylchiadau penodol pan na ddylid defnyddio'r egwyddor hon.

5. Dylai Cymwysterau Cymru ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

(Yn eich ymateb efallai yr hoffech ystyried: a) Y buddion a'r heriau i chi neu'ch sefydliad a b) Unrhyw amgylchiadau penodol pan na ddylid defnyddio'r egwyddor hon.

**6. Dylai Cymwysterau Cymru reoli'n agosach yr ystod o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus y gall canolfannau eu cynnig i bobl ifanc 16 oed i sicrhau ei bod yn deg ac yn gydlynol.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

*(Yn eich ymateb efallai yr hoffech ystyried: a) Y buddion a'r heriau i chi neu'ch sefydliad a b) Unrhyw amgylchiadau penodol pan na ddylid defnyddio'r egwyddor hon.*

**7. A oes unrhyw egwyddorion eraill y dylem eu hystyried wrth benderfynu pa gymwysterau i'w gwneud yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru?**

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

## Cymwysterau TGAU sy'n addas at y dyfodol

Yn adran 6 o'r ddogfen ymgynghori, rydym yn amlinellu ein cynnig i gadw'r enw TGAU wrth eu hailddylunio fel eu bod yn cwrdd â'n gweledigaeth ar gyfer cymwysterau ac yn cefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd.

**8. Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylid cadw'r enw TGAU ar gyfer y cymwysterau wedi'u hailddylunio a fydd yn rhan ganolog o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

**9. A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut y mae angen i gymwysterau TGAU newid i gyflawni ein gweledigaeth ac i gefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd?**

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

# Cymhwyster i asesu sgiliau ehangach

Yn adran 7 o'r ddogfen ymgynghori, rydym yn amlinellu ein cynnig i gadw cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach (fel y'u diffinnir yn y cwricwlwm newydd). Y rhain yw: creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, ac effeithiolrwydd personol.

**10. Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylai cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach (fel y'u diffinnir yn y cwricwlwm newydd) fod yn rhan o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig hwn?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ansicr

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

**11. A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut y mae angen i'r Dystysgrif Her Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 4 newid i gyflawni ein gweledigaeth a chefnogi nodau a dibenion y cwricwlwm newydd?**

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

# Asesiadau effaith

**Yn ein Hasesiad Effaith Integredig, rydym wedi nodi'r effeithiau rheoleiddiol yr ydym yn eu rhagweld o'r cynigion hyn.**

*Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, gwnewch yn glir pa gynnig/gynigion rydych chi'n cyfeirio ato/atynt.*

**12a. A oes unrhyw effeithiau rheoleiddiol pellach a allai ddeillio o unrhyw un o'n cynigion yr hoffech eu nodi?  
Os felly, eglurwch eich ateb yn y gofod isod.**

**12b. A oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau effaith reoleiddiol unrhyw un o'n cynigion?  
Os felly, eglurwch eich ateb yn y gofod isod.**

**12c. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar effaith reoleiddiol y cynigion hyn?  
Os felly, eglurwch eich ateb yn y gofod isod.**

**Yn ein Hasesiad Effaith Integredig, rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar y Gymraeg a maes cydraddoldeb.**

*Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, gwnewch yn glir pa gynnig/gynigion rydych chi'n cyfeirio ato/atynt.*

**13a. A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**

- Effaith gadarnhaol
- Dim effaith
- Effaith negyddol
- Ansicr

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

**13b. A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) mewn perthynas â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?**

- Effaith gadarnhaol
- Dim effaith
- Effaith negyddol
- Ansicr

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**



**13c. A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?**

- Effaith gadarnhaol
- Dim effaith
- Effaith negyddol
- Ansicr

**Esboniwch eich ateb yn y gofod isod.**

**14. Os oes gennych unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y wybodaeth a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon, defnyddiwch y gofod isod.**

**Efallai y byddwn am gysylltu â chi i drafod eich ymateb ymhellach. Os ydych chi'n hapus i ni wneud hynny, rhowch eich manylion cyswllt isod.**

Enw:

E-bost:

Rhif ffôn:

**Os hoffech ddarganfod mwy am ein gwaith ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd, gan gynnwys ein hymgyngoriadau yn y dyfodol, gallwch gofrestru i'n cylchlythyr, ['y Llechen'](#), neu ein dilyn ar [Trydar](#).**